AQA	City & Guilds	CCEA	OCR	Pearson	CBAC

Gwybodaeth i ymgeiswyr
Profion ar-sgrin – yn weithredol o 1 Medi 2017

Ysgrifennwyd y ddogfen hon i'ch helpu chi. Dylech ei darllen yn ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, gofynnwch i'ch athro/athrawes.

A	**Rheoliadau – Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y rheolau**
1	Byddwch ar amser ar gyfer eich prawf/profion ar-sgrin. Os ydych chi'n hwyr, mae'n bosibl na fydd eich gwaith yn cael ei dderbyn.
2	Peidiwch â chymryd rhan mewn unrhyw ymarfer annheg neu anonest yn ystod y prawf ar-sgrin.
3	Os byddwch yn ceisio twyllo, neu dorri'r rheolau mewn unrhyw ffordd, gallech chi gael eich diarddel o'ch holl bynciau.
4	Dim ond y deunyddiau a'r offer a ganiateir y dylech fynd â nhw i'r ystafell arholi.
5	**Ni chewch** fynd â'r canlynol i mewn i'r ystafell arholi: • **nodiadau;** • **ffynonellau gwybodaeth technolegol / a allai gael eu galluogi gan y we fel iPod, ffôn symudol, chwaraewr MP3/4, oriawr clyfar neu oriawr arddwrn sydd â dyfais storio data.** Oni bai y dywedir wrthych fel arall, **ni chewch** fynediad at y canlynol: • y rhyngrwyd, e-bost, data wedi'u storio ar y gyriant caled neu gyfryngau storio cludadwy fel disgiau hyblyg, CDs a ffyn cof; • templedi sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw. **Cofiwch: mae bod â deunydd yn eich meddiant heb ganiatâd yn torri'r rheolau hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu ei ddefnyddio, a gallwch gael eich cosbi a'ch diarddel o bosibl.**
6	Os ydych chi'n gwisgo oriawr arddwrn, bydd y goruchwyliwr yn gofyn i chi ei thynnu a'i gosod ar eich desg.
7	Peidiwch â siarad na cheisio cyfathrebu ag ymgeiswyr eraill, nac amharu arnynt ar ôl i'r prawf ar-sgrin ddechrau.
8	Os byddwch yn gadael yr ystafell arholi heb oruchwyliwr cyn i'r prawf ar-sgrin ddod i ben, ni chewch ddychwelyd.
9	Peidiwch â benthyg unrhyw beth gan ymgeisydd arall yn ystod y prawf ar-sgrin.
B	**Gwybodaeth – Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu eich prawf ar-sgrin a bod yr hyn y mae ei angen arnoch gennych**
1	Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod dyddiad ac amser eich prawf/profion ar-sgrin. Dylech gyrraedd o leiaf ddeng munud cyn dechrau eich prawf ar-sgrin.
2	Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer prawf ar-sgrin, ewch i weld y goruchwyliwr sy'n cynnal y prawf.
3	Os byddwch yn cyrraedd fwy nag un awr ar ôl yr amser cychwyn a gyhoeddwyd ar gyfer y prawf ar-sgrin, efallai na chewch ei sefyll.
4	Bydd eich canolfan yn rhoi gwybod i chi am unrhyw offer y bydd ei angen arnoch o bosibl ar gyfer y prawf ar-sgrin.
C	**Cyfrifianellau, Geiriaduron a Gwirwyr Sillafu Cyfrifiadurol**
1	Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell oni bai y dywedir wrthych fel arall.
2	Os ydych yn defnyddio cyfrifiannell: • gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn; gwnewch yn siŵr bod y batris yn gweithio'n iawn; • cliriwch unrhyw beth sydd wedi'i storio ynddi; • tynnwch unrhyw rannau megis casys, caeadau neu gloriau sydd â chyfarwyddiadau neu fformiwlâu argraffedig arnynt; • peidiwch â dod ag unrhyw gyfarwyddiadau gweithredu na rhaglenni wedi'u paratoi i mewn i'r ystafell arholi.
3	Peidiwch â defnyddio geiriadur na gwirydd sillafu cyfrifiadurol oni bai y dywedir wrthych fel arall.
Ch	**Cyfarwyddiadau yn ystod y prawf ar-sgrin**
1	Gwrandewch ar y goruchwyliwr bob amser. Dilynwch ei gyfarwyddiadau bob amser.
2	Dywedwch wrth y goruchwyliwr ar unwaith os: • rydych chi wedi cael eich cofrestru ar gyfer y prawf ar-sgrin anghywir; • mae'r prawf ar-sgrin yn enw ymgeisydd arall; • rydych yn profi unrhyw oedi ar y system neu unrhyw afreoleidd-dra TG arall.
3	Efallai y byddwch yn cael papur cwestiynau neu efallai y bydd y cyfarwyddiadau ar y sgrin. Yn y naill achos, darllenwch yn ofalus a dilynwch y cyfarwyddiadau.
D	**Cyngor a chymorth**
1	Ar ddiwrnod y prawf ar-sgrin, os ydych yn teimlo y gallai salwch neu reswm arall effeithio ar eich gwaith, rhowch wybod i'r goruchwylir.
2	Rhowch eich llaw i fyny yn ystod y prawf ar-sgrin: • os oes gennych broblem gyda'ch cyfrifiadur ac yn ansicr beth ddylech ei wneud; • os nad ydych yn teimlo'n dda.
3	Ni ddylech ofyn am esboniad o'r cwestiynau, ni fyddwch yn cael ateb.
Dd	**Ar ddiwedd y prawf ar-sgrin**
1	Gwnewch yn siŵr bod y feddalwedd yn cau ar ddiwedd y prawf ar-sgrin.
2	Os gofynnir i chi argraffu'r gwaith y tu allan i'r amser a ganiateir ar gyfer y prawf ar-sgrin, gwnewch yn siŵr eich bod yn casglu eich gwaith eich hun. Rhaid i chi beidio â rhannu eich gwaith gydag ymgeiswyr eraill. Gwnewch yn siŵr nad yw ymgeisydd arall yn casglu'r deunydd rydych chi wedi ei argraffu.
3	Peidiwch â gadael yr ystafell arholi nes bod goruchwyliwr yn dweud wrthych am wneud hynny.

© 2017

4	Peidiwch â chymryd dim deunydd ysgrifennu o'r ystafell arholi. Mae hyn yn cynnwys gwaith bras, deunydd wedi'i argraffu ac unrhyw ddeunyddiau eraill a ddarparwyd ar gyfer y prawf ar-sgrin.

© 2017